TASG 1 : DADANSODDI / PARAU

Mewn parau, rhestrwch y geiriau yn y gerdd sy'n ymwneud â daearyddiaeth.

TASG 2 : TRAFOD / DADANSODDI

Mae'r gerdd yn cychwyn gyda chwestiwn mewn un gair, 'Pellter?', sy'n awgrymu bod rhywun wedi dweud wrth y bardd fod pellter mawr rhyngom ni a'r blaned Mawrth. Erbyn diwedd y gerdd mae'r bardd yn dweud bod 'Mawrth y dychymyg / yn nes nag yr oedd o'r bla'n'.

a) Sut mae'r gerdd wedi dangos i ni fod y blaned Mawrth bellach yn nes atom?

b) Ydych chi'n cytuno â'r bardd?

TASG 3 : YMCHWILIO / YSGRIFENNU (DISGRIFIADOL)

a) Ewch ar y we i weld y lluniau o'r blaned Mawrth sydd ar Google Mars.

b) Dewiswch ddau ohonyn nhw ac ysgrifennwch baragraff disgrifiadol amdanyn nhw, gan ddefnyddio'r dychymyg a'r synhwyrau i geisio dod â'r golygfeydd yn fyw i'r darllenydd.

TASG 4 : YSGRIFENNU (FFUGLEN)

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch eich bod wedi cael comisiwn i ysgrifennu nofel wyddonias wedi'i lleoli ar y ddaear ac ar y blaned Mawrth.

Ysgrifennwch dudalen agoriadol (200 o eiriau) y nofel honno, gan geisio'i gwneud hi mor atyniadol â phosib i'r darllenydd.

(Byddwch yn ddifyr ac yn ddramatig, a pheidiwch â cheisio esbonio popeth!)